***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 538 (Cy.75)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *6 Mawrth 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 46(2) a (3) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd erbyn hyn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

### Enw, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003 ac maent yn dod i rym ar 6 Mawrth 2003.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Ni fydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn cysylltiad ag ariannu ysgolion a gynhelir yn yr un flwyddyn ariannol sydd yn dechrau cyn 1 Ebrill 2003.

### Diwygio'r Rheoliadau

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999(**3**) fel y canlyn.

(2) Ym mharagraff 40A(1) o Atodlen 2(**4**)), yn lle "and 1st April 2002" rhowch ", 1st April 2002 and 1st April 2003".

(**1**) 1998 p.31. *Gweler* adran 142(1) am ddiffiniadau "prescribed" a "regulations". Mae adran 46 o Ddeddf 1998 Act yn cael ei ddiddymu yn rhagolygol gan Rhan 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1999/101 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/911 (Cy.40), O.S. 2001/495 (Cy.22) ac O.S. 2002/136 (Cy.19). Yr oedd y rheoliadau 1999 hynny yn wreiddiol yn gymwys i Gymru a Lloegr ond cawsant eu dirymu mewn cysylltiad â Lloegr gan O.S. 2000/478.

(**4**) Mewnosodwyd paragraff 40A gan O.S. 2000/911 (Cy.40).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D.Elis-Thomas*
5 Mawrth 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (sydd erbyn hyn yn gymwys i Gymru yn unig).

Mae Rheoliadau 1999 (fel y'u diwygiwyd o'r blaen) yn rhagnodi'r gwariant sydd i'w gyfrif fel cyllideb ysgolion lleol awdurdod addysg lleol ac yn pennu pa wariant y gall awdurdod ei dynnu oddi ar ei gyllid ysgolion lleol er mwyn cyrraedd ei gyllideb ysgolion unigol. Maent hefyd yn darparu ar gyfer sail dosbarthu'r gyllideb ysgolion unigol honno rhwng ysgolion. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau addysg lleol, drwy gynllun y maent yn ei baratoi, ymdrin â materion penodedig sy'n gysylltiedig ag ariannu'r ysgolion y maent yn eu cynnal.

Mae gwariant ar ailstrwythuro tâl athrawon a chyflogi athrawon uwch-fedrau ymhlith yr eitemau gwariant y gellir eu tynnu oddi ar y gyllideb ysgolion lleol a'u cadw yn ganolog. Serch hynny, ni ellir tynnu gwariant o'r fath ond ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2000—2003. Mae'r rheoliadau presennol yn darparu ar gyfer caniatáu tynnu gwariant o'r fath ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003—4.